Yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

CYNLLUN GWASANAETH BWYD 2011/2012

1. NODAU AC AMCANION Y GWASANAETH

1.1 NODAU

1. Diogelu iechyd y cyhoedd rhag peryglon a allai ddigwydd wrth fwyta bwyd, a diogelu buddiannau defnyddwyr fel arall mewn cysylltiad â bwyd.

2. Cefnogi'r prif flaenoriaethau y mae'r FSA (Asiantaeth Safonau Bwyd) wedi'u nodi o ran rheoleiddio:-

   - Cynnig cymorth a dilyn camau gweithredu wedi eu targedu, cymesur a seiliedig ar risg, yn cynnwys archwiliadau, i amddiffyn diogelwch bwyd ac atal clefydau sy'n cael eu cario mewn bwyd.

   - Mynd i'r afael â busnes drygionus a dilyn camau priodol i ddiogelu'r cyflenwad bwyd rhag difwyniad, halogi, twyll a cham-ddisgrifio.

   - Cynnig cyngor, cymorth a chymhellion priodol wedi eu targedu, penodol, eglur a thrylwyr i fusnesau er mwyn iddynt gydymffurfio cymaint ag y bo modd â rheoliadau hylendid bwyd yr UE a chyfraith bwyd yn gyffredinol.

   - Cynnig cyngor a chymorth i ddefnyddwyr er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a hyrwyddo dulliau iachach o fyw a dewis i'r defnyddiwr.

   - Cynnig dulliau eglur, trylwyr a chyson o ymdrin ag ymchwilio i, a datrys, cwynion gan ddefnyddwyr ynglŷn â bwyd a busnes bwyd.

3. Cynnal masnachu teg a chyfiawn, rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr a busnesau, ac annog busnes gonest.

4. Gwella ansawdd gwasanaethau yn gyson trwy ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth gweithwyr yn effeithiol a'u gwella.

1.2 AMCANION

1. Sicrhau iechyd a lles y cyhoedd trwy hyrwyddo a gorfodi safonau diogel mewn hylendid a diogelwch bwyd wrth baratoi, cynhyrchu, storio, dosbarthu a thrin a gwerthu bwyd ym mhob adeilad bwyd perthnasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol â gofynion pob deddfwriaeth bwyd berthnasol.

2. Darparu rhaglen archwilio a gorfodi effeithiol, wedi ei chynllunio, ar gyfer safleoedd bwyd, anifeiliaid fferm a daliadau âr a safleoedd lle mae bwyd anifeiliaid.

3. Cynorthwyo, cynghori ac addysgu pob carfan ynglŷn â materion yn ymwneud â diogelwch a safonau bwyd, rheoli clefydau trosglwyddadwy, bwydydd anifeiliaid,

masnachu teg a phwysau a mesurau a diogelwch y defnyddiwr, gyda golwg ar gefnogi darparu busnesau o safon.

4. Arolygu diogelwch y bwyd sy'n cael ei werthu i'r cyhoedd, iachusrwydd cyflenwadau dŵr yfed preifat, cyfansoddiad a chywirdeb labeli bwyd a bwydydd anifeiliaid, trwy raglen samplo strwythuredig.

5. Darparu a chynnal amgylchedd masnachu 'diogel rhag methu' a gwybodus ar gyfer trigolion Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ar gyfer ymwelwyr.

6. Sicrhau nad yw bwyd pobl a bwydydd anifeiliaid yn peryglu iechyd ac y cydymffurfir â safonau labelu a chyfansoddiadol.

7. Ymgymryd â rhaglen wedi ei chynllunio i brofi, archwilio a gwirio offer pwyso a mesur a chadw golwg ar systemau rheoli mesuregol ar safleoedd perthnasol yn unol â'r risg.

8. Ymchwilio i gwynion gan ddefnyddwyr a masnachwyr ynglŷn â: bwyd, safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid, pwysau a mesurau, masnachu teg a diogelwch y defnyddiwr.

9. Ymchwilio i achosion o glefydau trosglwyddadwy y rhoddir gwybod i'r Awdurdod amdanynt.

10. Diogelu defnyddwyr rhag twyll a chamymddygiad masnachol.

11. Cysylltu ag Awdurdodau Lleol, partïon a rhanddeiliaid eraill.

12. Hyrwyddo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

13. Ymateb yn ddi-oed ac yn effeithiol i rybuddion ynglŷn â bwyd ac unrhyw fygythiadau i ddiogelwch y bwyd a werthir ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

14. Darparu'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig yn unol â systemau rheoli ansawdd.

1.3 CYSYLLTIADAU AG AMCANION CORFFORAETHOL, A BLAENORIAETHAU A CHYNLLUNIAU A RENNIR

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu cymunedau lleol a chyfrannu tuag at wireddu datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i bob Cyngor ddatblygu strategaeth gymunedol, mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus fel yr heddlu, iechyd, y gymuned fusnes a grwpiau gwirfoddol, a bod honno'n nodi targedau a chamau gweithredu tymor hir i wella'u hardal leol. Nodwyd chwe blaenoriaeth strategol allweddol yn Strategaeth Gymunedol Wrecsam, sef:

- Lle sy'n gwerthfawrogi dysgu
- Lle diogel
- Lle gofalgar ac iach
- Lle sy'n gwerthfawrogi plant a phobl ifanc
- Lle sy'n ffynnu'n economaidd
- Lle sy'n gofalu am yr amgylchedd

Mae'r Cyngor wedi gosod nifer o flaenoriaethau a meysydd lle mae gwella yn flaenoriaeth, lle mae'n dymuno cyflawni newid o bwys ar gyfer y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Addysg a sgiliau gwell ar gyfer cyflogaeth
- Tai fforddiadwy
- Lleihau allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni

Mae nifer o feysydd hefyd lle mae'r Cyngor yn dymuno gwneud newidiadau neu welliannau o bwys, yn cynnwys:

- Bwyta'n iach a chael pobl i wneud mwy o ymarfer
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a chanfyddiadau o drosedd
- Helpu pobl hŷn i fyw yn annibynnol
- Lleihau gwastraff ac ailgylchu
- Mynediad at wasanaethau a gwrando ar y cyhoedd a'u denu i ddylanwadu ar wasanaethau
- Prosiectau datblygu trefniadaeth / prosiectau gwella gwasanaethau

Mae'r Gwasanaeth Bwyd yn gallu helpu i gyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau hyn trwy:

- Rheoleiddio a galluogi bywiogrwydd economaidd
- Cefnogi busnesau lleol
- Gwella diogelwch y cyhoedd
- Darparu addysg a hyfforddiant
- Annog busnesau bwyd i hyrwyddo dewisiadau iach
- Effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl

2. CEFNDIR

2.1 PROFFIL YR AWDURDOD LLEOL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

2.1.1 Mae cyfanswm o 47 o wardiau, tros 50,500 o hectarau o Ogledd Ddwyrain Cymru, sef 94% o'r ardal ddaearyddol, wedi eu dosbarthu'n wledig gan Lywodraeth Cymru. Mae'r boblogaeth yn 133,200 (amcangyfrif y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol 2009) ac mae 52% ohonynt yn byw yn ardaloedd trefol Wrecsam ei hun a'r pentrefi trefol.

2.1.2 Nifer y preswylfeydd ar y rhestr brisio ym mis Ebrill 2011 oedd 58,995.

2.1.3 O ran ei maint, Wrecsam yw'r drydedd ganolfan fanwerthu fwyaf yng Nghymru ar ôl Caerdydd ac Abertawe. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae canol y dref wedi elwa ar ailddatblygu eang sydd wedi ychwanegu 250,000 o droedfeddi sgwâr at yr ardal siopa.

2.1.4 Mae cymeriad diwydiannol yr ardal wedi newid llawer ers tranc y diwydiannau hŷn a thrymach fel dur, glo a brics a'u disodli gan sectorau newydd. Mae gweithgynhyrchu yn dal i fod yn bwysig iawn, gyda 22.5% yn gweithio yn y sector hwn.

2.1.5 Mae cyfleusterau yn y Sir gan enwau sy'n gyfarwydd ym mhob cartref, fel Kellogg's a Cadbury's ynghyd â chynhyrchwyr bwyd eraill o bwys.

2.2 STRWYTHUR CYFUNDREFNOL

2.2.1 Mae Atodiad A yn amlinellu strwythur Cyfarwyddwyr/Prif Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

2.2.2 Mae Atodiad B yn amlinellu'r Strwythur Rheoli adrannol.

2.3 CWMPAS Y GWASANAETH BWYD

2.3.1 Cwmpas Darparu Gwasanaethau

- Archwilio safleoedd lle mae bwyd yn cael ei gynhyrchu neu ei werthu i weld a ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth Bwyd ac Amaethyddol.
- Derbyn ac ymdrin â cheisiadau am gymeradwyo/cofrestru safleoedd e.e. gweithgynhyrchwyr mawr ac adeiladau cofrestredig ar gyfer bwydydd anifeiliaid.
- Ymateb i ac ymchwilio i bob cwyn ynglŷn â bwyd a werthir, safleoedd bwyd a hysbysiadau am wenwyn bwyd.
- Cynnal arolygiadau a derbyn neu atafaelu bwyd a bwydydd anifeiliaid ansicr ac afiachus.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn hylendid bwyd a gweithgareddau hyrwyddo gyda'r cyhoedd a masnachwyr.
- Archwilio ac ymateb i bob ymgynghoriad cynllunio ynglŷn â safleoedd bwyd.
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i arlwywyr, trinwyr bwyd ac ati.
- Gweithredu rhaglen samplo bwyd a bwydydd anifeiliaid ar gyfer dadansoddi bacteriolegol a chyfansoddiadol.
- Gweithredu ynghylch rhybuddion bwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- Gweithredu fel awdurdod cartref/cychwynnol lle bo angen.

2.4 GALWADAU AR Y GWASANAETH BWYD

2.4.1 PROFFIL SAFLEOEDD

Cynhyrchwyr	7
Lladd-dai	3
Gweithgynhyrchwyr/Proseswyr	66
Archfarchnadoedd	11
Dosbarthwyr (yn cynnwys cyfanwerthwyr a chludwyr)	20
Manwerthwyr	292
Tai bwyta ac arlwywyr eraill	920
Defnyddiau ac Eitemau mewn cyffyrddiad â bwyd	1
Cyfanswm	1320

Safleoedd Cymeradwy Penodol i Gynnyrch	21
Bwydydd Anifeiliaid Cofrestredig	87
Rheoleiddio Cyffredinol ar Adeiladau sy'n Cyflenwi Bwyd y tu hwnt i'r Ardal Leol	4

2.4.2 Mannau Cyflenwi Gwasanaeth

Diogelwch Bwyd, yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam LL14 6NH

Yn ychwanegol, mae'r Adran yn gweithredu cyfleuster brys allan o oriau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau brys y tu hwnt i oriau gwaith arferol. Hefyd, cynhelir arolygiadau wedi eu trefnu o flaen llaw ar safleoedd y tu allan i oriau gwaith arferol.

3. POLISI GORFODI

Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd wedi adolygu ei bolisi gorfodi yn unol â gofynion Deddf Gorfodaeth Reoleiddiol a Sancsiynau 2008.

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch gorfodi, rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:-

a) Difrifoldeb y trosedd
b) Hanes y busnes
c) Hyder yn y rheolwyr
ch) Canlyniadau diffyg cydymffurfio
d) A yw'n debygol y byddai gwahanol ddewisiadau gorfodi yn effeithiol
dd) Agwedd y gweithredwr/perchennog

Nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn a gellid ystyried ffactorau eraill yn amgylchiadau achos penodol. Cyn penderfynu a ddylid erlyn, rhoddir ystyriaeth i gyflwyno rhybudd syml yn unol â Chylchlythyr y Swyddfa Gartref 016/2008 pe byddai gweithredu fel hyn yn fwy priodol neu effeithiol.

Dyma'r dewisiadau o ran gweithredu:-

a) Gwneud dim
b) Gweithredu'n anffurfiol
c) Defnyddio hysbysiadau statudol
ch) Rhybuddio'n ffurfiol
d) Erlyn

Mae fersiwn gyflawn y Polisi Gweithredu i'w chael trwy gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd:

Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
Yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Stryd Fawr
Rhiwabon
Wrecsam LL13 8BG
Ffôn: 01978 813700

4. DARPARU'R GWASANAETH

4.1.1 Arolygiadau o Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Mae safleoedd y gellid cynnal arolygiad bwyd a bwydydd anifeiliaid arnynt yn cael eu hasesu am risg ac mae dosbarthiad yr asesiad risg yn rheoli lefel yr arolygiad y maent yn ei gael a pha mor aml y caiff ei gynnal.

4.1.2 Proffil Safle – Nifer yr Arolygiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn 2011/12

Safonau Bwyd

Grŵp Risg	Nifer yr Adeiladau	Arolygiadau sydd i fod	Arolygiadau wedi'u trefnu
A – Uchel	47	47	47
B - Canolig	315	141	141
Dim dosbarthiad	9	9	9
Cyfanswm	371	197	197

Safonau Amaethyddol*

Grŵp Risg	Lefel yr Arolygiad	Nifer yr Adeiladau	Arolygiadau sydd i fod	Arolygiadau wedi'u trefnu
Tir Âr/Cnydau Cyffredinol	2%	7	0	0
Anifeiliaid Fferm heb fod yn Sicr	25%	}561	79	79
Anifeiliaid Fferm Sicr	2%	}	9	9
Cyfanswm		568	88	88

Hylendid Bwyd

Grŵp Risg	Adeiladau	Arolygiadau wedi'u trefnu
A	3	6
B	63	63
C	480	267
D	200	135
E	354	192
Cyfanswm	1100	663

4.2 Gweithgarwch Gorfodi Amgen

Bydd gweithgareddau gorfodi amgen yn cael eu gweithredu ar gyfer adeiladau risg isel (Grŵp Risg B), lle bo hynny'n briodol, gan ddefnyddio cyfuniad o holiaduron hunanasesu a chyngor/gwybodaeth wedi eu hanelu at sectorau masnach penodol.

4.3 Cwynion am Fwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Polisi'r Awdurdod yw ei fod yn ceisio ymateb i gwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid o fewn canllawiau a gweithdrefnau penodedig yn cynnwys ystyriaeth i brosesau ymchwilio penodol.

Arhosodd y lefel o gwynion yr un fath drwyddi draw yn 2010/11

Cwynion	2009/10	2010/11
Safonau Bwyd	18	31
Diogelwch Bwyd	67	51

Mae a wnelo'r rhain â chwynion am fwyd y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'i brynu ac sydd yn eu barn nhw yn anaddas i'w fwyta, wedi'i halogi, neu ddim mewn cyflwr derbyniol.

4.4 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ffurfiol ac wedi cael cymeradwyaeth yr Aelodau. Mae'r awdurdod yn Awdurdod Cartref i 23 o safleoedd gweithgynhyrchu bwyd ac yn awdurdod cychwynnol i 9 safle gweithgynhyrchu bwyd. O'r rhain, mae o leiaf 24 yn cyflenwi bwyd ledled y Deyrnas Unedig ac mae nifer hefyd yn allforio bwyd i CE a'r tu hwnt. Mae'r awdurdod wedi cymryd gwaith awdurdod cartref ym meysydd safonau bwyd a diogelwch bwyd arno'i hun fel rhan o'i arolygiadau arferol wedi'u trefnu. Mae gan fusnesau bwyd mwy swyddogion cyswllt wedi'u henwi at ddibenion safonau bwyd a diogelwch bwyd fel bod modd cynnig cyngor yn rhwydd mewn ffordd unffurf a chyson.

4.4.1 Cynllun Prif Awdurdod

Yn rhan o fenter 'Rheoleiddio Gwell' y Llywodraeth, dechreuodd y Cynllun Prif Awdurdod ar 6 Ebrill 2009. Mae'r cynllun hwn yn ategu Egwyddor yr Awdurdod Cartref ac mae'n fodd i fusnesau fynd i bartneriaeth statudol gydag un awdurdod lleol yn unig a fydd yn darparu cyngor trylwyr a dibynadwy y mae'n rhaid i Gynghorau eraill ei ystyried wrth gynnal arolygiadau neu ymdrin â diffyg cydymffurfio. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y sail a osodwyd gan gynlluniau gwirfoddol awdurdod cartref ac awdurdod arweiniol ond mae'n golygu newid sylfaenol yn natur y berthynas rhwng y rheoleiddiedig a'r rheoleiddiwr.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn trafod a oes modd (ynghyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Gwell Leol) hyrwyddo manteision y cynllun ymysg busnesau lleol sy'n masnachu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

4.5 Cyngor i Fusnesau

Mae'r awdurdod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod gweithwyr, taflenni cynghori ac adnoddau ar gael, er mwyn sicrhau dull unffurf a chyson o ymdrin â chynghori trwy ardal yr awdurdod. Mae'r Adran yn parhau i lunio cylchlythyr sydd wedi'i anelu at bob busnes, yn cynnwys gweithredwyr y rhan fwyaf o'r busnesau bwyd ledled y Fwrdeistref Sirol. Nod hyn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau am newidiadau yn y gyfraith a chyfleoedd hyfforddi, yn ogystal ag am bynciau llosg y funud. Cafodd pecyn gwybodaeth i fusnesau newydd ei ddatblygu, yn rhoi cyngor sylfaenol a manylion cyswllt defnyddiol i weithredwyr busnesau.

4.6 Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid ar gyfer Arolygiad

Mae cynlluniau samplo bwyd yn cael eu llunio bob blwyddyn mewn ymateb i anghenion a phroblemau lleol a ganfyddir. Mae samplo yn tueddu tuag at gynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr lleol a materion sy'n codi o'r newydd ac mae'n rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw raglenni samplo cenedlaethol e.e. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, y Panel Bwyd a Safonau Amaethyddol ac

Arolygon Rheoleiddio Cyd-drefnedig Llywodraeth Leol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â samplo ein gweithgynhyrchwyr lleol, cynhaliwyd arolwg o brydau ysgol. Cyflwynwyd 44 o brydau ysgol i gyd i gael eu dadansoddi, a chanfuwyd bod pob un yn foddhaol. Yn 2011/12, yn ogystal ag ymchwilio i'n gweithgynhyrchwyr lleol, rhagwelir y bydd yr awdurdod yn cymryd rhan mewn rhaglen samplo i ymchwilio i ddiogelwch paté, a'r bacteria a geir ar drolïau siopa.

Samplau wedi'u trefnu	2011/2012
Safonau Bwyd	100
Safonau Amaethyddol	20
Diogelwch Bwyd	172

Mae'r awdurdod wedi penodi'r canlynol i ddibenion dadansoddi bwydydd a bwydydd anifeiliaid:
Dadansoddwyr Cyhoeddus: Eurofins Laboratories Ltd, Woodthorne, Wergs Road, Wolverhampton WV6 8TQ, a;
HPA Laboratory, Royal Preston Hospital, Sharoe Green Lane North, Preston.

4.7 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus cysylltiedig â Bwyd

Ymchwilir i bob achos o Wenwyn Bwyd neu Amheuaeth o Wenwyn Bwyd; mae'r cysylltiad yn digwydd un ai drwy ymweliad personol neu dros y ffôn.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'n ffurfiol Cynllun ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Wenwyn Bwyd gyda sefydliadau partner.

Dyma'r hysbysiadau a gafwyd yn 2008 – 2010. Gwelir bod gostyngiad bach wedi bod yn y nifer o hysbysiadau, yn arbennig Salmonela. Rhaid aros i weld ai gostyngiad dros dro yw hwn ynteu a yw'n duedd.

Clefyd	2008	2009	2010
Campylobacter	146	78	132
Salmonela	21	27	27
E coli O157	5	8	5
Cryptosporidiwm	13	18	12
Giardiasis	3	2	2
Gwenwyn Bwyd Arall	7	3	4

Mae dau swyddog wedi cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi Cymru gyfan ym maes Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy.

4.8 Rhybuddion Diogelwch Bwyd

Cangen Ddigwyddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n ymdrin ag achosion o halogi amgylcheddol a allai effeithio ar y gadwyn fwyd. Wedi ei chreu yn 2007, mae cangen ddigwyddiadau'r Asiantaeth yn cynnig cyngor a chymorth i awdurdodau lleol ynglŷn â digwyddiadau. Mae'n cynhyrchu 'Hysbysiadau Gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn Ôl' neu 'Hysbysiadau Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn Ôl' i roi gwybod i Awdurdodau Lleol a defnyddwyr am y problemau'n gysylltiedig â bwyd. Mewn rhai achosion cyhoeddir 'Rhybuddion Bwyd ar gyfer Gweithredu'. Mae hyn yn rhoi i'r

awdurdodau lleol fanylion y gweithredu penodol sydd i'w roi ar waith ar ran defnyddwyr.

Rhoddir 'Hysbysiad Gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn Ôl' neu 'Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn Ôl' lle mae ateb i'r broblem wedi cael ei sefydlu – mae'r cynnyrch wedi, neu mae yn y broses, o gael ei dynnu'n ôl rhag cael ei werthu neu o gael ei alw'n ôl oddi wrth ddefnyddwyr.

Mae manylion yr achosion diweddaraf o dynnu cynnyrch yn ôl neu o alw cynnyrch yn ôl i'w gweld ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

5. CYSYLLTU Â SEFYDLIADAU ERAILL

Mae'r awdurdod wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod y camau gorfodi a gymerir yn gyson â'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau cyfagos, ac mae ganddo gynrychiolwyr ar Baneli Technegol Gogledd Cymru Cymdeithas y Cyfarwyddwyr, sy'n ymdrin â materion Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy a Safonau Bwyd ac Amaethyddol.

Mae'r awdurdod yn aelod gweithredol o'r Panel Safonau Bwyd ac Amaethyddol. Mae'r panel hwn yn sicrhau bod y gweithgareddau yr ymgymerir â nhw yn gyson ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol LACORS.

6. HYRWYDDO DIOGELWCH BWYD

6.1 Cyrsiau Hylendid Bwyd

Yn ystod 2010-11 darparodd yr Adran Diogelwch Bwyd y cyrsiau canlynol

	Nifer y cyrsiau	Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr
Hylendid Bwyd Sylfaenol	7	89
Hylendid Bwyd Canolradd	2	31

Ar ben hyn, cynigiwyd i bob Ysgol Uwchradd leol y cyfle i ddisgyblion technoleg bwyd sefyll yr arholiad Lefel 1 mewn Hylendid Bwyd. Yn ystod y flwyddyn 2010/11 llwyddodd 11 o ddisgyblion y papur Lefel 1. Mae'r nifer hwn yn llai na'r blynyddoedd o'r blaen oherwydd bod yr adran wedi dechrau codi ffi er mwyn adennill rhai o'i chostau.

6.2 Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru

Cychwynnwyd y cynllun gwobrwyo hwn ar 1 Mawrth 2002, gan ddyfarnu tystysgrifau i weithredwyr safleoedd bwyd sydd wedi cyflawni safonau uchel mewn glendid ac arferion hylendid bwyd. Gan fod holl Awdurdodau Lleol Cymru wedi cytuno, yn 2010, i roi'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol ar waith, penderfynwyd, ar draws Cymru, peidio â pharhau â'r Cynllun Gwobrau Hylendid.

6.3 Gwybodaeth ar wefan (www.wrexham.gov.uk a dilyn y dolenni at Diogelwch Bwyd)

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â materion Diogelwch a Safonau Bwyd yn cynnwys cyngor ynglŷn â gweithredu busnes newydd a nifer o gwestiynau cyffredin.

Mae modd riportio materion bwyd, trefnu lle ar gwrs hylendid bwyd a chofrestru safle bwyd 'ar-lein'.

Mae gwasanaeth gwefan a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2006 yn fodd i'r cyhoedd weld canlyniadau arolygiadau hylendid bwyd diweddar a gynhaliwyd yn y fwrdeistref ar ffurf graddfa sêr hylendid. Yn yr arolygiad, mae busnesau yn cael eu hasesu yn erbyn amrediad o baramedrau, yn cynnwys eu cydymffurfiad â deddfwriaeth hylendid bwyd ac asesiad y swyddog o'i hyder yn y modd y mae'r busnes yn cael ei reoli.

Mae'r asesiad hwn yn arwain at sgôr gyffredinol, a fydd yn fodd i weithio allan y sgôr sêr o dan y cynllun, sy'n cael ei alw'n gyffredinol yn "Scores on Doors".

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio i ddatblygu cynllun cenedlaethol a gafodd ei lansio, yng Nghymru, yn hydref 2010. Cytunodd pob un o 22 Awdurdod Cymru i weithredu'r cynllun hwn, sy'n caniatáu i gwsmeriaid archwilio sgôr hylendid bwyd busnesau ar-lein. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys tystysgrifau a sticeri i'w harddangos ar y safle, yn dangos sgôr y busnes rhwng 0 a 5, er nad yw'n orfodol arddangos y rhain ar hyn o bryd.

6.4 Y Strategaeth Faethiad i Gymru

6.4.1 Mae'r Awdurdod hwn wedi ymrwymo i'r Strategaeth Faethiad i Gymru a bydd yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn cynnal a chefnogi nifer o weithgareddau i'r perwyl hwn.

6.5 Mae'r camau rhagweithiol sydd wedi eu trefnu ar gyfer eleni yn cynnwys:

Hylendid Bwyd

- Yn dilyn Adroddiad Pennington yn 2009, bu newid pwyslais o ran y camau gorfodi a gymerir gan swyddogion yn yr Adran, gyda mwy o rybuddion ffurfiol yn cael eu cyflwyno ac erlyniadau'n cael eu dwyn. Mae safleoedd nad ydynt yn perfformio cystal wedi cael eu nodi, a'r bwriad yw targedu adnoddau at y safleoedd hynny mewn ymgais i sicrhau gwelliannau, neu ddwyn achos yn erbyn y rhai sy'n amharod i gydymffurfio.
- Rhagwelir y bydd gwybodaeth diogelwch bwyd ar gael ar stondin Cyngor Wrecsam yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Bydd y cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol yn cael ei roi ar waith yn raddol, a bydd unrhyw bryderon yn cael eu dwyn i sylw'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Bydd cyrsiau hylendid bwyd Lefel 2 a Lefel 3 yn cael eu hysbysebu i fusnesau bwyd ledled y fwrdeistref ac ar wefan Cyngor Wrecsam.
- Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gydweithio'n agos â Chyngor Sir y Fflint.

Safonau Bwyd:

Ar sail Gogledd Cymru

- Arolwg i samplo'r labelu pysgod mewn siopau bwyd cario allan fel dilyniant i'r arolwg a wnaed ar safleoedd manwerthu y llynedd
- Samplo am gopr mewn iau oen (ynghyd â halogydd arall na phenderfynwyd arno eto)
- Cymryd rhan yn arolwg Bwyd wedi'i Fewnforio'r Asiantaeth Safonau Bwyd i edrych ar (yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid)
  a) Fformaldehyd yn ymfudo mewn llestri melamin
  b) Ffurfiant rhywogaethau pysgod – yn gysylltiedig â'r arolwg uchod i samplo'r labelu ar bysgod
  c) Cig, pysgod a chynnyrch llaeth am elfennau di-ddiocsin fel PCBs
- Cwrs hyfforddi i helpu swyddogion i gasglu'r oriau gofynnol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Ar sail Wrecsam yn unig

- Samplo safleoedd trwyddedig i weld a oes cyfnewid brand a 'glastwreiddio' yn digwydd
- Defnyddio olew coginio GMO mewn siopau bwyd cario allan
- Arolwg i Faethiad mewn Ysgolion Meithrin

Safonau Bwyd Anifeiliaid

- Cymryd rhan mewn arolwg o fwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn edrych ar ddiocsinau, DL-PCBs ac NDL-PCBs mewn olewau wedi'u mewnforio yn y 3 melin bwyd anifeiliaid yn y fwrdeistref (yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid)
- Targedu busnesau bwyd anifeiliaid ar sail y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol i Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid e.e. busnesau sy'n prosesu bwyd dros ben i mewn i'r gadwyn bwyd anifeiliaid a'r systemau olrhain sydd ar waith mewn busnesau bwyd anifeiliaid.

6.6 Gweithgareddau Eraill

Rhoddir sgyrsiau ar gais i sefydliadau lleol. Bydd datganiadau yn cael eu rhoi i'r wasg ynglŷn â materion diogelwch bwyd tymhorol perthnasol.

7. ADNODDAU

Nid oes dadansoddiad manwl wedi cael ei wneud o'r adnoddau sydd wedi eu dyrannu i elfennau'r gwasanaeth, fel y maent wedi eu rhestru uchod.

7.1 Dyraniad Ariannol

	2010/2011
Diogelwch bwyd	£284,129
Safonau Bwyd ac Amaethyddol	£76,398

7.2 Dyraniad Staffio (rhai cyfwerth ag amser llawn)

Hylendid Bwyd 6
Safonau Bwyd ac Amaethyddol 1.4

7.3 Cynllun Datblygu Staff

Mae'r Awdurdod wedi rhoi gweithdrefn arfarnu ar waith. Mae hon yn cynnwys dau gyfarfod adolygu blynyddol er mwyn adolygu ac asesu perfformiad yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a dynodi meysydd i'w gwella. Mae'r awdurdod wedi cyflawni'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n cael ei hasesu'n allanol.

8. ADOLYGIAD

8.1 Adolygiad yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Mae cynlluniau Gweithgarwch Adrannol sy'n cynnwys agweddau ar y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch reolwyr yr Adran. Mae hyn yn cynnwys monitro'r cynllun yn rheolaidd.

Yn ystod blwyddyn 2010/11, cwblhaodd yr Adran 100% o'i harchwiliadau hylendid bwyd a safonau bwyd risg uchel.

8.2 Darganfod amrywiant oddi wrth y cynllun gwasanaeth

Trwy fonitro darpariaeth y gwasanaeth yn rheolaidd mae modd gweld diffygion neu amrywiant yn lefel y gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu. Mae modd gweithredu ynglŷn â'r rhain bron ar unwaith, a allai olygu bod angen archwiliad i asesu maint y cyfryw amrywiadau a'r rhesymau amdanynt. Yn lle hynny, os bydd angen, ac yn dibynnu pa mor fawr a chymhleth yw'r amrywiant, gellir galw am adolygiad rheoli yn ychwanegol i'r rhaglen fonitro reolaidd.

8.3 Meysydd Gwella

Bydd yr adolygiad Rheoli yn argymell a dogfennu unrhyw feysydd gwella lle mae'r gwasanaeth i fod i wella. Gellir rhoi'r rhain ar waith ar unwaith os oes angen, neu mae modd iddynt fod yn rhan o gynlluniau gwasanaeth blynyddol yn y dyfodol.

Mae Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd wedi derbyn y Wobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn dilyn archwiliad yn 2009. Mae hyn yn gwobrwyo ymrwymiad yr Adran wrth wasanaethu ei chwsmeriaid.

8.4 Adolygiad o rai o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd ym mlwyddyn 2010/2011

Hylendid Bwyd

Mae'r achos o E.coli yn Llai yn haf 2009 wedi cael effaith fawr ar waith y Tîm Diogelwch Bwyd dros y 18 mis diwethaf. Bu holl aelodau'r tîm yn gweithio'n ddygn ar yr ymchwiliad cychwynnol, gan olygu gostyngiad yn y nifer o arolygiadau arferol a oedd wedi'u rhaglennu. Gwnaed iawn am y diffyg hwn drwy gyflogi contractwr rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2010. Cyflogodd yr Awdurdod wasanaeth bargyfreithiwr wrth lunio'r achos i erlyn gweithredwr y busnes bwyd lle cafwyd yr achos o E.coli ac, ar ôl ymchwiliad cyfreithiol cymhleth, cafodd y gweithredwr ddedfryd o wyth mis o garchar, a gwaharddwyd ef rhag rheoli busnes bwyd yn y dyfodol.

Ymchwilio i weithrediad Cwmni cig cyfanwerthu

Ym mis Ebrill 2010, tynnwyd sylw'r Adran at y ffaith fod Cwmni cig cyfanwerthu sydd wedi'i leoli yn Wrecsam (nad oedd yr Adran yn gwybod amdano cyn hynny) yn gwerthu cig i fanwerthwyr yn yr ardal gyda labelu a modd olrhain annigonol. Datgelodd ymchwiliad i'r Cwmni ei fod yn prynu a storio cig, peth ohono o ansawdd amheus a pheth ohono heb fodd dilys o'i olrhain. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy weithio'n agos gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a sawl Awdurdod Lleol arall ar draws y wlad, mae sawl tunnell o gig wedi cael eu hatafaelu a'u dinistrio, ac mae'r ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo. Un o swyddogion y Tîm Diogelwch Bwyd sydd wedi arwain yr ymchwiliad, ac o ganlyniad bu'r Awdurdod yn cyflogi contractwr rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2010 i helpu i wneud iawn am y diffyg o ran y nifer o arolygiadau a oedd wedi'u cyflawni.

Mae'r achos hwn, yn dilyn mor fuan ar ôl yr achos o E.coli yn Llai, a'r angen yn sgil hynny i gyflogi contractwr i gynnal arolygiadau arferol, wedi golygu costau ychwanegol i'r gwasanaeth o oddeutu £22000. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gronfa wrth gefn sy'n cynnig cymorth ariannol i'r Awdurdodau hynny sy'n dioddef yn ariannol am iddynt fod yn rhan o ymchwiliadau cymhleth. Gwnaed cais llwyddiannus i'r Asiantaeth, gan helpu i adfer y costau o gyflogi contractwr am y cyfnodau hyn.

Ymchwilio i arogleuon yn tarddu o stondin pysgod ym Marchnad y Cigyddion

Yn dilyn cwynion ym mis Mawrth 2001 gan aelodau o'r cyhoedd a deiliaid stondinau eraill fod arogleuon drwg yn tarddu o stondin pysgod ym marchnad y cigyddion, cynhaliodd swyddogion o'r Tîm Diogelwch Bwyd archwiliad o'r safle. Datgelodd hwn bysgod mewn cyflwr gwael mewn cwpwrdd oeri cerdded-i-mewn, mewn rhewgell ac yn cael eu harddangos i'w gwerthu – roedd rhai o'r pysgod wedi dechrau pydru. Cafodd yr holl bysgod ar y stondin un ai eu cadw er mwyn cynnal ymchwiliadau pellach neu eu hatafaelu, a gwnaed dau gais wedyn i'r Llys Ynadon am dystysgrifau condemnio. Cyflwynodd yr Ynadon y tystysgrifau ac anfonwyd y pysgod i gael eu dinistrio.
Nid yw'r gweithredwr busnes bwyd a oedd yn gyfrifol am y stondin wedi cael ei weld yn y farchnad ers diwrnod yr arolygiad.

Safonau Bwyd

- Canfu arolwg o'r disgrifiadau bwydlenni sy'n cael eu cyhoeddi yng Ngogledd Cymru fod 14% o'r disgrifiadau a archwiliwyd yn anghywir neu nad oes modd eu gwirio. Denodd yr arolwg sylw mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol a chan raglen teledu brecwast genedlaethol, a byddai'r rhaglen defnyddwyr i Gymru, X ray, â diddordeb mewn dilyn swyddog pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol. Yn dilyn yr arolwg, datblygwyd taflenni canllawiau dwyieithog i helpu sefydliadau arlwyo a chyflenwyr gyda'u disgrifiadau cynnyrch.
- Amlygodd arolwg Labelu Pysgod (rhywogaethau gwyllt a rhai wedi'u ffermio) a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru fod 15% o'r samplau a gymerwyd yn anghywir am iddynt gael eu camddisgrifio.
- Cymerwyd rhan yn rhaglen Samplo Bwyd wedi'i Fewnforio yr Asiantaeth Safonau Bwyd gan chwilio defnyddiau sy'n dod i gyffyrddiad â bwyd, reis, cnau, perlysiau, sbeisiau a saws soi am halogyddion, GMO a gwenwynau ffwng. Cymerwyd cyfanswm o 83 o samplau ar draws Gogledd Cymru (17 yn

Wrecsam) a chyflwynwyd y canlyniadau i'r Asiantaeth Safonau Bwyd iddynt gael eu coladu ar sail genedlaethol.

- Cymerwyd rhan yn Arolwg Cartrefi Gofal WHoTs, yn edrych ar y maeth sy'n cael ei ddarparu i bobl yn y sector hwn. Mae'r canlyniadau'n cael eu coladu gan banel Cymru ar hyn o bryd.
- Cafodd samplau eu cymryd cyn y Nadolig mewn tai trwyddedig yn y fwrdeistref i chwilio am gyfnewid brand a "glastwreiddio". Ymwelwyd â 10 sefydliad, profwyd 29 sampl a chafwyd bod un sampl yn anghywir. Rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig i'r sefydliad hwnnw.
- Mae taflenni cynghori dwyieithog ar gael ar-lein yn awr ar y wefan safonau masnach a gall defnyddwyr deilwrio'r rhain yn unol â'u hangen penodol nhw.

Safonau Bwyd Anifeiliaid

- Oherwydd newidiadau staff, cafodd y ffordd o weithredu'r Safonau Bwyd Anifeiliaid ei hadolygu ac, yn dilyn Archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn edrych ar fwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio, mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i dargedu ardaloedd penodol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Strwythur fel yr oedd ar 1 Ebrill 2011 Atodiad A				
		Prif Weithredwr *Yn wag* *CP: Diane Davenport*		
Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad *Clare Field* *CP: Sharon Roberts / Karen Glendenning*		Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad *Philip Walton* *PC: Dianne Parry*		Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad *Lee Robinson* *CP: Susan Evans*
Pennaeth Plant a Phobl Ifanc – Atal a Gofal Cymdeithasol *Yn wag* *Ysg: Denise Mansley*		**Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion** *Andew Figiel* *Ysg: Karen Williams*		**Pennaeth Lles a Datblygu Cymunedol** *Lawrence Isted* *Ysg: Judith Williams*
Pennaeth Dysgu Gydol Oes *John Davies* *Ysg: Eirian Lightfoot*		**Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd** *Andy Lewis* *Ysg: Claire Whiting*		**Pennaeth Asedau a Datblygu Economaidd** *Stephen Bayley* *Ysg: Angela Evans*
		Pennaeth yr Amgylchedd *John Bradbury* *Ysg: Debbie Halligan*		**Pennaeth Cyllid** *Mark Owen* *Ysg: Amanda Butler*
				Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid *Trevor Coxon* *Ysg: Alison Griffiths / Janet Graham*

DS – Mae hwn yn dangos y llinellau adrodd yn ôl i Bennaeth yn unig ac nid yw'n dangos pob atebolrwydd, cyfrifoldeb nac adrodd uniongyrchol. Ni ddangosir swyddogion statudol ar y diagram hwn.

Fersiwn Terfynol – ychwanegwyd swydd-ddeiliaid ar 1 Mawrth 2011

Atodiad B

Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd

		Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd		**Gwasanaethau Tai** (Gwasanaethau Landlord/Tai Strategol a Thai Sector Preifat)
X1 Swyddog Gweinyddol X4 Cynorthwyydd Gweinyddol		Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd	Swyddog Cymorth Rheolwr y Gwasanaeth	
Prif Reolwr **Diogelu'r Amgylchedd a Gorfodaeth**	Prif Reolwr **Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu**	Prif Reolwr **Diogelwch Bwyd**	Prif Swyddog **Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**	Prif Reolwr **Safonau Masnach**

Diogelu'r Amgylchedd	***Gorfodaeth Amgylcheddol***	***Iechyd a Diogelwch***	***Trwyddedu***	***Diogelwch Bwyd***	***Iechyd a Diogelwch Corfforaethol***	***Masnachu Teg***	***Masnach / Iechyd Anifeiliaid***
Tir Halogedig X3 Swyddog Tir Halogedig X1 Swyddog Prosiect Tir Halogedig *Diogelu'r Amgylchedd* X1 Arweinydd Tîm X1 Swydd. Iechyd yr Amgylchedd X1 Swyddog Technegol X1 Swyddog Llygredd	X1 Arweinydd Tîm X1 Swyddog Technegol X6 Swydd. Gorfodaeth Amgylcheddol X1 Warden Cŵn X1 Swyddog Rheoli Plâu	X2 Swydd. Iechyd yr Amgylchedd X1 Swyddog Iechyd a Diogelwch X1 Swyddog Technegol (dros dro)	X1 Arweinydd Tîm X2 Swydd. Gorfodaeth Trwyddedu X1 Swyddog Cymorth Trwyddedu	X1 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Arbenigol X2 Swydd. Iechyd yr Amgylchedd X2 Swydd. Diogelwch Bwyd	X3 Swydd. Iechyd a Diogelwch Corfforaethol X1 Swyddog Gweinyddol (dros dro) Ynghyd â Secondiadau Adrannol	X1 Arweinydd Tîm X4 Swydd. Gorfodaeth TS X1 Uwch Swyddog Masnachu Teg X1 Swyddog Gorfodaeth Dan Oedran (dros dro)	X1 Uwch Swyddog Gorfodaeth X1 Swyddog Iechyd Anifeiliaid X1 Swyddog Cymorth Iechyd Anifeiliaid X3 Swyddogion Safonau Masnach X1 Swyddog Cymorth Technegol

X1 Cymorth Technegol X1 Swydd. Iechyd yr Amgylchedd X1 Swyddog Technegol							

Ebrill 2011